# Y Pwyllgor Cyllid

**FIN (3) 04-07 (p1) Atodiad: 18 Hydref 2007**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Pwyllgor Cyllid - 18 Hydref 2007
## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:
## Amcangyfrif Atodol 2007- 08

**1. Yr Angen am Amcangyfrif Atodol**

1.1 Nid oedd y Cynnig Cyllideb Blynyddol ar gyfer 2007-08 a gytunwyd arno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Rhagfyr 2006 yn darparu'n llawn ar gyfer yr amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2007-08 a gyflwynwyd gennyf fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2006.

1.2 O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, roedd angen imi gyflwyno amcangyfrif i Gabinet y Cynulliad erbyn 31 Hydref 2006. Un o'r gofynion eraill o dan y Ddeddf, pe bai Cabinet y Cynulliad yn penderfynu cyflwyno amcangyfrif i'r Cynulliad gydag addasiadau, oedd y dylai ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud hynny, ac yna'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.3 Ni wnaeth y Cabinet unrhyw addasiad i fy amcangyfrif ar gyfer 2007-08. Felly, mae angen i'r Cynulliad yn awr gymeradwyo amcangyfrif atodol er mwyn rhoi'r adnoddau llawn sydd eu hangen arnaf i gyflawni fy swyddogaethau statudol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

**2. Datblygiadau ers mis Hydref 2006**

2.1 Bu dau newid ers mis Hydref 2005 sydd wedi lleihau'r adnodd ychwanegol net sydd ei angen:

(a) **Diffyg yn y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol**

Nid oes mwyach angen y ddarpariaeth o £300k a oedd wedi'i chynnwys yn fy amcangyfrif cyllideb yn Hydref 2006 oherwydd bod y Cynulliad wedi gwneud taliad ym Mawrth 2007 fel fy mod wedi gallu talu'r diffyg yn llawn.

(b) **Adennill TAW**

Yn y flwyddyn ariannol bresennol, derbyniais y swm o £124k gan Adran Cyllid a Thollau EM fel TAW fel swm wedi'i adennill gan y cyn Gomisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Nid oeddwn wedi cynnwys yr adenilliad hwn yn fy amcangyfrif cyllideb oherwydd ansicrwydd ynghylch ei amseriad.

(Dalier sylw: swm untro yw hwn. Er bod y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, yn hanesyddol, yn gymwys i adennill TAW, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu adennill TAW ar wariant.)

**3. Amcangyfrif atodol sydd yn awr ei angen**

3.1 Rhoddir y ffigurau yn y tabl isod:

| - | Cyf | Adnodd | Incwm | Net |
|---|---|---|---|---|
| - | - | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflwyniad amcangyfrif Hydref 2006 | Para 1 | 3,137 | 8 | 3,129 |
| Cynnig Cyllideb Rhagfyr 2006 | - | 2,130 | 10 | 2,120 |
| Amrywiad | - | 1,007 | -2 | 1,009 |
| Addasiadau: | - | - | - | - |
| Diffyg pensiwn | Para 2.1a | -300 | - | -300 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | Para 2.1b | - | 124 | -124 |
| **Amcangyfrif atodol sydd ei angen** | - | **707** | **122** | **585** |

Adam Peat
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 3 Hydref 2007